
Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion – crynodeb a phapur trafod

Medi 2017



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru>

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Amserlen datblygiadau allweddol rhwng ysgolion	2
Prif ganfyddiadau	6
Canfyddiadau arolygiadau ac arolygon thematig Estyn	8
Ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol ac ysgolion sy'n ymarferwyr datblygol	10
Her Ysgolion Cymru	12
Mentrau consortia rhanbarthol	14
Geirfa	15
Cyfeiriadau	16

Cyflwyniad

Ym Mehefin 2015, cyhoeddodd Estyn adroddiad, sef 'Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion' i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2014-2015 (Estyn, 2015). Nid oedd cwmpas y gwaith yn cynnwys Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol na Her Ysgolion Cymru, gan fod y mentrau hyn wedi cael eu harfarnu ar wahân, ac edrychodd yn bennaf ar fodolau cydweithio a grëwyd gan ysgolion. Rhoddodd yr adroddiad enghreifftiau o gymorth a chydweithio rhwng ysgolion, ac ystyried beth sy'n gweithio, sut a pham mae'n gweithio, a'r mecanweithiau cymorth sy'n ei gynnal. Fe wnaeth hefyd drafod effaith, ffactorau llwyddiant a rhwystrau sy'n wynebu'r mentrau hyn rhwng ysgolion.

Mae'r ail adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o'r adroddiad cyntaf hwnnw. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r prif ddatblygiadau polisi a mentrau sy'n ymwneud â chymorth rhwng ysgolion ac mae'n crynhoi a chyfosod arfarniadau sy'n bodoli eisoes ar gyfer pob datblygiad. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar dystiolaeth o'r canlynol:

- canfyddiadau'r adroddiad cyntaf ynghylch 'Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion' (Estyn, 2015)
- adroddiadau arolygu ar y pedwar consortiwm rhanbarthol a gyhoeddwyd yn 2016
- canfyddiadau o waith arolygu a gwaith thematig arall gan Estyn
- arfarniadau'r prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol (Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA), 2014 a SCYA, 2016) a'r arfarniad o fenter Her Ysgolion Cymru (Carr, Brown a Morris, 2017 a Carr a Morris, 2016).

Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, uwch arweinwyr mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Cefndir

Dros y 15 mlynedd ddiwethaf, cafwyd llawer o brosiectau a mentrau cenedlaethol i annog cymorth a chydweithio rhwng ysgolion. Mae'r mentrau hyn, er enghraifft, yn cynnwys Llwybrau Dysgu 14-19 yn 2004 a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a lansiwyd yn 2008. O ran cyfeiriad y teithio er 2010, mae ysgolion wedi cael eu hannog i wella deilliannau trwy rannu arfer o fewn ysgolion, a gydag ysgolion eraill, fel ei gilydd. Erbyn 2013, y symbyliad oedd gwneud mwy i sefydlu strwythur a fydd yn arwain at system hunanwella. Er 2014, bu mwy o symbyliad ar lefel ysgol, lefel leol a lefel genedlaethol i annog cydweithio o'r fath a datblygu system hunanwella. Mae'r llinell amser isod yn olrhain rhai o'r datblygiadau hyn.

Amserlen datblygiadau allweddol rhwng ysgolion

Setiau data craidd Cymru Gyfan 2009 a Theuluoedd o ysgolion 2010

- 1 Yn 2009, disodlodd Llywodraeth Cymru Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion â Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Mae'r setiau data craidd yn cynnwys ystod o wahanol graffiau, siartiau a thablau sy'n dangos:
 - canlyniadau ysgol yn erbyn perfformiad lleol a chenedlaethol
 - y gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn a rhwng y disgyblion hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn eu cael
 - cymariaethau â pherfformiad ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim

Fe wnaeth y setiau data craidd gyflwyno'r cysyniad o 'deuluoedd' o ysgolion tebyg hefyd.

- 2 Yn 2010, crëwyd **Theuluoedd o ysgolion** trwy drefnu ysgolion yn grwpiau yn ôl p'un ai Cymraeg neu Saesneg yn bennaf yw'r iaith a ddefnyddir yn yr ysgol, maint yr ysgol (ar gyfer teuluoedd ysgolion cynradd yn unig) a'u sgôr ar 'fynegai her'¹. Diwygiwyd y teuluoedd yn 2013 ac eto yn 2016. Disgwylir i ysgolion ystyried eu perfformiad nhw yn erbyn perfformiad aelodau eraill o'r teulu o ysgolion ac ysgolion eraill tebyg wrth osod targedau ar gyfer gwella'r ysgol. Fe wnaeth creu'r chwarteli meincnod helpu ysgolion i'w cymharu eu hunain ag ysgolion tebyg. Er nad oedd bwriad eglur i hyrwyddo gwaith rhwng ysgolion, roedd disgwyl i aelodau'r teulu ofyn am gyngor a rhannu arfer dda ag aelodau eraill y teulu.

Cymunedau dysgu proffesiynol 2011

- 3 Lansiodd model cenedlaethol ar gyfer creu **Cymunedau dysgu proffesiynol** gan Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2011. Grŵp o ymarferwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio proses ymholi strwythuredig i ganolbwyntio ar faes penodol o'u haddysgu i wella deilliannau dysgwyr ac felly codi safonau ysgolion yw cymuned ddysgu broffesiynol (CDdB). Y sail ar gyfer y datblygiad hwn oedd gwaith Barber a Mourshen (2007) yn eu hadroddiad '*How the world's best performing school systems came out on top*'. Daethant i'r casgliad fod '*Ysgolion sy'n perfformio'n dda yn helpu athrawon i wella cyfarwyddyd trwy ddysgu oddi wrth ei gilydd*.' Yn yr arweiniad ar gyfer datblygu cymunedau dysgu proffesiynol, mae'n datgan bod cymunedau dysgu proffesiynol sy'n gwneud yn dda:
 - yn gwella deilliannau dysgwyr
 - yn newid arfer broffesiynol ac yn grymuso ymarferwyr
 - yn creu newid cynaliadwy
 - yn datblygu gallu arwain ar draws y system
 - yn cael effaith fesuradwy

¹ Gweler yr Eirfa am esboniad o'r 'mynegai her'

Ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol ac ysgolion sy'n ymarferwyr datblygol 2013

- 4 Lansiodd y prosiect **Ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol ac ysgolion sy'n ymarferwyr datblygol** gan Lywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2013. Roedd y prosiect ynparu ysgol gynradd neu uwchradd oedd yn perfformio'n dda (yr ysgolion sy'n ymarferwr arweiniol) ag ysgol oedd yn perfformio'n wannach a oedd eisoes wedi dechrau ei thaith i wella (yr ysgol sy'n ymarferwr datblygol). Y bwriad oedd y byddai datblygu a rhannu arfer orau a gwybodaeth o fudd i'r ysgol arweiniol a'r ysgol ddatblygol fel ei gilydd. Dechreuodd y prosiect hwn cyn i'r consortia rhanbarthol ddechrau eu gwaith i sefydlu system hunanwella ar sail cymorth rhwng ysgolion. Roedd bwriad clir mai 'braenarwyr' oedd y cyfranogwyr yn y prosiect hwn, ac y byddai'r arfarniad o'r prosiect yn ceisio nodi negeseuon allweddol am beth oedd yn gweithio a pham, yn ogystal â beth nad oedd yn gweithio a pham.
- 5 Cynhaliwyd arfarniadau o'r Prosiect Braenaru Ymarferwyr Arweiniol a Datblygol gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn 2014 a 2016.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2014

- 6 Ym mis Ionawr 2014, fe wnaeth adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, arfarnu agweddau ar system addysg Cymru, a gwnaeth nifer o argymhellion. Ymhlith y rhain, roedd argymhelliad i:

ddatblygu a gweithredu strategaeth Gymraeg ar gyfer cydweithio rhwng ysgolion, gan greu saernïaeth sy'n annog ysgolion i ddewis partneriaid priodol, mewn awyrgylch o dryloywder, ymwybyddiaeth a chefnogaeth. (OECD, 2014, tud.8.)

- 7 Yn yr adroddiad, dywedodd OECD mai cydweithio rhwng ysgolion yw 'un o'r dewisiadau mwyaf effeithiol ar gyfer datblygu cyfalaf proffesiynol ac yn enwedig cyfalaf cymdeithasol ymhlith athrawon ac arweinwyr'. (OECD, 2014 tud.77). Dywedodd hefyd:

Mae cydweithio rhwng ysgolion yn darparu ffordd o ddosbarthu gwybodaeth a strategaethau o amgylch y system; mae'n darparu ffordd arall o gefnogi ysgolion sy'n cael trafferth yn hytrach nag ymyrraeth o'r brig i lawr; ac mae'n datblygu cyfrifoldeb ar y cyd ymhlith yr holl ysgolion ar gyfer llwyddiant pob myfyriwr. (OECD, 2014 tud.77.)

- 8 Mae'r adroddiad yn rhybuddio bod llawer o gydweithio presennol rhwng ysgolion wedi digwydd o ganlyniad i argyfwng, i osgoi cau ysgol neu pan fydd ysgol wedi cael canlyniad arolygiad gwael. Yn ychwanegol, mae'n dod i'r casgliad mai megis dechrau cael eu datblygu yr oedd dulliau o gefnogi gweithio rhwng ysgolion sydd eisoes yn gweithredu, nid oedd digon o adnoddau ar ei gyfer, roedd yn digwydd o'r brig i lawr yn bennaf, ac nid oedd ffocws i hyn. Dadleuodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd fod ymchwil yn dangos nad y rhain yw'r amodau delfrydol ar gyfer sefydlu cydweithio ffyniannus rhwng ysgolion.

Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol a chonsortia rhanbarthol 2014

- 9 Lansiodd y **Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol** gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014 (Llywodraeth Cymru, 2014b). Yn ei harweiniad, amlinellodd Llywodraeth Cymru ddisgwyliad y bydd pob ysgol yn dilyn cylch blynyddol o gynllunio gwella ysgol. Rhoddodd system gategoreiddio genedlaethol ar gyfer ysgolion ar waith hefyd. Yr hyn sy'n ganolog i'w chynlluniau yw y dylai consortia rhanbarthol herio a brocera cymorth sy'n briodol i anghenion ysgol. Mae'r arweiniad yn datgan:

Dylid annog a galluogi ysgolion sydd â'r capasiti i wneud hynny i arwain ar eu gwelliannau eu hunain a defnyddio eu hadnoddau eu hunain, fel y bo'n briodol. Yng nghyswllt yr ysgolion hynny allai beri pryder neu sy'n peri pryder, cyfrifoldeb y consortia fyddai helpu i gydweddu a brocera'r gefnogaeth sydd ei hangen ar yr ysgol yn unol â'r gefnogaeth sydd ar gael, (Llywodraeth Cymru, 2014b, tud.3).

- 10 Yn 2014, sefydlwyd pedwar **consortium rhanbarthol**, sef [Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortium Canolbarth y De](#), [Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru](#), [Ein Rhanbarth ar Waith \(ERW\)](#) a [GwE](#).

- 11 Arolygwyd y pedwar consortium rhanbarthol gan Estyn yn 2016.

Her Ysgolion Cymru 2014

- 12 Pecyn cymorth sydd wedi'i fwriadu i wella perfformiad 40 o ysgolion uwchradd sy'n wynebu amgylchiadau heriol ac yn cael eu herio o ran cyflawni yw **Her Ysgolion Cymru**, a lansiodd gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2014. Cafodd yr ysgolion hyn, a nodwyd trwy ystod o ffactorau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd, becyn cymorth a oedd wedi'i deilwra'n unigol i fodloni anghenion ac amgylchiadau'r ysgol, (Llywodraeth Cymru, 2014a). Ariannwyd y fenter tan fis Ebrill 2017.
- 13 Cynhaliwyd arfarniadau o fenter Her Ysgolion Cymru gan SQW yn 2014-2015; cyhoeddwyd adroddiad cyntaf ym mis Gorffennaf 2016 (Carr a Morris, 2016) a'r adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2017 (Carr, Brown a Morris, 2017).

Cymwys am Oes 2014

- 14 Cyhoeddwyd **Cymwys am Oes**, sef cynllun addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2014 (Llywodraeth Cymru, 2014c). Mae'r cynllun yn cynnwys yr amcan strategol fod arweinwyr addysg ar bob lefel yn gweithio gyda'i gilydd mewn system hunanwella, gan ddarparu cymorth a her ar y ddwy ochr i godi safonau ym mhob ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod yr egwyddor cymorth rhwng ysgolion yn ategu dulliau Llywodraeth Cymru a chonsortia o wella ysgolion. Mae hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion yn flaenoriaeth strategol allweddol yn Cymwys am Oes.

Rhwydwaith ysgolion arloesi 2015

- 15 Ym mis Mawrth 2014, gofynnwyd i'r Athro Graham Donaldson gynnal adolygiad sylfaenol o drefniadau'r cwricwlwm ac asesu o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Cyhoeddwyd yr adroddiad dilynol, sef *Dyfodol Llwyddiannus*, ym mis Chwefror

2015. Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod am sefydlu **Rhwydwaith ysgolion arloesi**. Bydd yr ysgolion hyn:

- yn cynllunio a datblygu ‘*Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am oes*’, sef y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru
- yn cynorthwyo ysgolion i baratoi ar gyfer ei roi ar waith
- yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr i gefnogi datblygu'r cwricwlwm newydd

Prif ganfyddiadau

- 16 Mae canfyddiadau arolygiadau ac adroddiadau thematig ar deithiau gwella uwchradd a chynradd (Estyn, 2013; Estyn, 2016) yn awgrymu bod **rhaid i ysgolion gael diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol** er mwyn i gymorth a chydweithio rhwng ysgolion fod yn llwyddiannus.
- 17 Daeth yr arfarniad o'r Prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol i gasgliadau tebyg (Llywodraeth Cymru, 2013). Nododd hefyd fod **angen i'r ysgol wybod a derbyn pan fydd angen newid**.
- 18 Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r arfarniad o Her Ysgolion Cymru yn awgrymu bod yr ysgolion a oedd eisoes ar eu taith i wella, yn cydnabod yr hyn yr oedd angen ei newid a pham, yn gallu gwneud defnydd effeithiol o gymorth gan ysgolion eraill (Llywodraeth Cymru, 2014a). Mae angen ymyrraeth a her gadarn ar ysgolion sydd ag arweinyddiaeth wan, dulliau hunanarfarnu gwael a hinsawdd o weld bai a diffyg ymddiriedaeth i elwa ar y cyfleoedd a ddarperir gan y cyllid, ac **mae angen ymyrraeth pan na fydd ysgol yn darparu safon dderbyniol o addysg**.
- 19 Mae consortia rhanbarthol yn cydnabod bod angen iddynt gynnig dull gwahaniaethol o gefnogi a herio i ysgolion. Ym mhob consortiwm, darperir cymorth cynyddol i ysgolion gan ysgolion eraill. Fodd bynnag, **ni chaiff gwaith rhwng ysgolion ei fonitro na'i arfarnu'n** ddigon gofalus i sicrhau bod y cymorth yn cael yr effaith a fwriedir ac nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr ysgol sy'n darparu'r cymorth.
- 20 Ar sail y canfyddiadau uchod, mae'n bosibl nodi ffactorau llwyddiant cyffredin a rhwystrau y mae angen eu goresgyn cyn i gydweithio rhwng ysgolion allu bod yn effeithiol. Nid yw ysgolion yn elwa ar weithio gydag ysgolion eraill nes y bydd y rhan fwyaf o'r ffactorau llwyddiant ar waith a'r rhwystrau wedi cael eu gwaredu. Mae'r rhestrau isod yn adeiladu ar y rheiny a gyhoeddwyd i ddechrau yn adroddiad cyntaf Estyn (Estyn, 2015).

Ffactorau llwyddiant:

- Mae angen arweinyddiaeth hyfforddedig ac effeithiol ar yr ysgol
- Mae angen i'r ysgol wybod a derbyn pryd mae angen newid
- Dylai cymorth rhwng ysgolion ddeillio o nodi angen yn glir, cael rhesymwaith clir a dylai fod yn seiliedig ar amcan strategol
- Rhaid i'r ffocws fod ar fusnes craidd addysgu a dysgu ac ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion
- Mae angen diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol ar ysgolion
- Dylai'r cyfranogwyr deimlo bod y cydweithio yn rhywbeth sy'n fuddiol i'r ddwy ochr
- Dylai'r cyfranogwyr fod ar gamau tebyg o'u taith i wella – mae'n llai tebygol y bydd y cymorth yn llwyddiannus os yw'r gwahaniaeth mewn effeithiolrwydd rhwng yr ysgolion dan sylw yn rhy fawr

- Mae angen i'r perthnasoedd rhwng ysgolion fod yn gyfartal, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, yn agored a thryloyw
- Dylid arfarnu gweithgareddau am eu heffaith ar y busnes craidd
- Mae angen ymyrraeth pan na fydd ysgol yn darparu safon dderbyniol o addysg

Rhwystrau:

- Diffyg ymrwymiad gan arweinwyr yr ysgol
- Diffyg diddordebau a rennir
- Diffyg ymddiriedaeth a didwylledd
- Cred nad oes gan bobl eraill unrhyw beth defnyddiol i'w gynnig
- Pryder y bydd amser y mae arweinwyr ac athrawon yn ei dreulio i ffwrdd o'r ysgol yn cael effaith negyddol ar eu hysgol eu hunain a disgyblion
- Diffyg capasiti i ryddhau staff heb i hyn fod yn niweidiol i ddisgyblion

Canfyddiadau arolygiadau ac arolygon thematig Estyn

- 21 Yn adroddiad cyntaf Estyn, lle edrychom yn bennaf ar gymorth a grëwyd rhwng ysgolion (Estyn, 2015), canfuom fod cymorth rhwng ysgolion yn gweithio orau yn yr achosion canlynol:
- pan fydd yn deillio o nodi angen yn glir, mae ganddo resymwaith clir ac mae wedi'i seilio ar amcan strategol
 - pan fydd y ffocws ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion
 - pan fydd y cyfranogwyr yn teimlo ei fod yn rhywbeth sy'n fuddiol i'r ddwy ochr
 - pan fydd yr ysgolion ar gamau tebyg o'u taith i wella, oherwydd os yw un yn dda neu'n dda iawn a'r llall yn wan, mae'n llai tebygol fod y cymorth yn effeithiol gan fod y pellter rhwng yr ysgolion dan sylw yn rhy fawr
 - pan fydd y perthnasoedd rhwng ysgolion yn gyfartal, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, yn agored a thryloyw
- 22 Mae'r rhwystrau a nodwyd o ran gweithio effeithiol rhwng ysgolion yn cynnwys:
- diffyg ymroddiad gan arweinwyr yr ysgol
 - diffyg diddordebau a rennir
 - diffyg ymddiriedaeth a didwylledd
 - cred nad oes gan ysgolion eraill unrhyw beth defnyddiol i'w gynnis
- 23 Mae arweinyddiaeth ragorol yn cyfrannu'n sylweddol at wella ysgolion unigol ac mae'n elfen allweddol o welliant ar draws systemau. Yn ein hadroddiadau ar deithiau i wella ysgolion, fe wnaethom nodi bod arweinwyr effeithiol yn cydnabod yr angen i addasu eu harddulliau arwain a mabwysiadu gwahanol strategaethau yn unol â sefyllfa'r ysgol ar ei thaith i wella. Er mwyn gwella o fan cychwyn isel, mae ysgolion fel arfer yn gofyn i arweinwyr uniongyrchol sefydlu disgwyliadau ynghylch ansawdd gwaith o ddydd i ddydd, yn enwedig ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mewn ysgolion y mae angen eu gwella fwyaf, y pennaeth yw'r prif ysgogiad wrth sefydlu sylfaen ar gyfer gwella.
- 24 Wrth i ysgolion ddechrau gwella, mae penaethiaid yn dechrau dwyn staff yn fwy atebol am ansawdd eu gwaith a'r safonau y mae eu disgyblion yn eu cyflawni. Wrth i'r momentwm ar gyfer gwella ysgolion gynyddu, mae penaethiaid yn mabwysiadu arddull arwain fwy cydweithredol. Maent yn galluogi uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i fod yn fwy dylanwadol wrth sicrhau gwelliannau. Mewn ysgolion sy'n cynnal safonau uchel o ran addysgu, dysgu a lles dros gyfnodau estynedig, mae arweinwyr yn cadw safonau ar flaen eu meddwl ar bob adeg ac mae diwylliant ble mae pob un o'r staff yn cyfrannu'n gyson at wella deilliannau ar gyfer disgyblion.
- 25 Mae system hunanwella yn system sydd â dysgu proffesiynol yn ganolog iddi. Mae arolygiadau a'n dau adroddiad ar daith ysgolion i wella (Estyn 2013 ac Estyn, 2016) yn awgrymu bod cydweithio effeithiol rhwng staff oddi mewn i'r ysgol a gydag ysgolion eraill yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus. Yn yr ysgolion hyn, ceir diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol, ac mae staff yn fyfyrion ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm i

sicrhau bod disgyblion yn cyflawni'n dda. Maent yn fodlon rhannu eu harfer â phobl eraill, a dysgu oddi wrthynt. Mae'r arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf iawn i gydweithio a datblygu ffyrdd o weithio sy'n gwneud y cyfrifoldeb hwn ar y cyd ar gyfer dysgu proffesiynol yn bosibl.

- 26 Mae adroddiadau Estyn ar deithiau i wella (Estyn 2013 ac Estyn 2016) yn dangos mai amod allweddol ar gyfer dysgu proffesiynol llwyddiannus ymarferwyr ym mhob ysgol yw datblygu perthnasoedd sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ysgol. Mae meithrin diwylliant o gydweithio rhwng ysgolion yn cynnwys ymrwymiad dilys i fod yn agored i ddysgu oddi wrth ysgolion eraill ac mae'n fwyaf effeithiol pan fydd ymarferwyr yn cael cyfle i weithio gyda'i gilydd i gyflawni nod penodol.
- 27 Nid oes gan bron pob ysgol a osodir mewn categori statudol (angen gwelliant sylweddol neu angen mesurau arbennig) y perthnasoedd cydweithredol hyn. Mae'r ysgolion hyn a'u staff wedi'u hynysu, ac mae'n anodd iddynt gael asesiad realistig o ddeilliannau'r ysgol ac ansawdd eu haddysgu a'u dysgu. Yn aml, mae arweinwyr ysgol yn defnyddio cefndiroedd disgyblion yn esgus dros berfformiad gwael am nad ydynt wedi gweithio gydag ysgolion mewn sefyllfaoedd tebyg sy'n perfformio'n llawer gwell.
- 28 Mae ysgolion sy'n perfformio'n dda bob amser yn gweithio'n agos â rhwydweithiau, clystyrau a grwpiau teuluol o ysgolion eraill. Mae hyn yn eu helpu i ddeall y gwahanol ffactorau sy'n cyfrannu at arfer effeithiol ac asesu ansawdd eu haddysgu a'u dysgu yn gywir. Maent yn elwa ar weithio gydag ysgolion eraill ar weithgareddau fel craffu ar waith disgyblion ar y cyd neu arsylwadau gwersi ar y cyd gydag ymgynghorwyr o'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol. Mae'r prosiectau hyn ar y cyd yn helpu staff i fyfyrion ar eu harfer a magu eu hyder.

Prosiect braenaru ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol ac ysgolion sy'n ymarferwyr datblygol

- 29 Lanswyd y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2013. Mae'n paru ysgolion â pherfformiad cryf gydag ysgolion sy'n dechrau gwneud cynnydd. Bwriadwyd i'r fenter bara 18 mis. Mae wedi cynnwys dwy ran ac mae rhaglen i ysgolion arbennig hefyd. Arfarnwyd y prosiect gan Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) a lluniwyd dau adroddiad.
- 30 Canfu'r arfarniad hanner ffordd gan y SCYA yn 2014 fod y Prosiect Braenaru Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol 'eisoed wedi cael effaith ystyrlon ar arfer broffesiynol rhai athrawon, ar ethos a diwylliant rhai ysgolion, ac ar allu'r rhan fwyaf o Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol i arwain eu gwelliant eu hunain' (SCYA, 2014, tud. 7). Prif effaith hyn fu gwneud staff yn fwy myfyriol, yn fwy ymwybodol o wahanol ddulliau o addysgu ac roedd wedi annog rhannu arfer a datblygiad proffesiynol parhaus ar y cyd. Daeth yr arfarniad i'r casgliad mai'r gofyniad pwysicaf ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol rhwng ysgolion yw bod rhaid i'r ddwy ysgol fod yn argyhoeddedig y gallant ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae angen i ysgolion arweiniol fod yn barod i gyfrannu at lwyddiant ysgolion eraill a rhaid i ysgolion datblygol fod yn argyhoeddedig ynglŷn â'r angen am newid.
- 31 Wrth baratoi'r ail ran, cymhwysodd Llywodraeth Cymru y gwersi a ddysgwyd yn ystod y rhan gyntaf: pwysigrwydd paru ysgolion yn ofalus, gwneud yn siŵr bod gan yr ysgolion flaenoriaethau clir ar gyfer gwella a chynllun manwl gywir o'r hyn yr oedd angen ei wneud. Canfu'r arfarniad o ran 2, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, fod ansawdd y partneriaethau'n well na'r rheiny yn rhan 1 (SCYA, 2016). Gwnaeth SCYA nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, sef:
- Sicrhau bod strategaeth gydlynus ar gyfer gwella ysgolion sy'n seiliedig ar ddull haenog sy'n ymateb i'r lefel wahanol o angen a ddangosir gan ysgolion yng Nghymru.
 - Adeiladu ar yr enillion cadarnhaol a wnaed gan staff a fu'n cymryd rhan yn y prosiect Braenaru trwy ymgorffori gweithgareddau datblygiad proffesiynol effeithiol mewn cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ledled Cymru. Yn benodol, mae angen sicrhau bod arweinwyr ysgol yn datblygu medrau gweithio gydag ysgolion eraill, trwy edrych ar ofynion arwain a chynnwys cymwysterau proffesiynol arweinwyr.
 - Hwyluso'r arfer o rannu arfer dda a nodwyd yn y prosiect Braenaru i sicrhau ei bod yn cael yr effaith fwyaf ar ysgolion ledled Cymru.
 - Annog rhagor o gydweithio rhwng ysgolion wrth i'r Ysgolion Arloesi ddechrau ar y gwaith i ddiwygio trefniadau'r cwricwlwm a datblygiad proffesiynol yng Nghymru.

32 Roedd argymhellion ar gyfer ysgolion hefyd, sef:

- **Sicrhau bod gwaith gwella yn arwain at ddull ‘cysylltiedig’ o wella ysgolion.** Dylai ysgolion ystyried y cymorth a dderbynnir o wahanol ffynonellau a dod â hyn at ei gilydd i osgoi dyblygu ymdrech.
- **Parhau i ddangos tystiolaeth a rhannu’r canfyddiadau o’u gweithgareddau ymchwil ac arfarnu eu hunain yn gysylltiedig â’u gwaith gwella ysgol gydag ysgolion eraill.** Gellid rhannu’r canfyddiadau hyn trwy rwydweithiau eu hysgolion eu hunain, yn ogystal â thrwy’r offer rhannu adnoddau cenedlaethol presennol, fel gwefannau ‘Hwb’ a Dysgu Cymru.

33 Nid oedd yr arfarniad yn gallu darparu tystiolaeth o unrhyw effaith gynaledig y prosiectau braenaru gan ei fod wedi cael ei gynnal yn ystod oes y prosiectau. Fodd bynnag, mae ei argymhellion yn nodi rhag-amodau defnyddiol a materion nad ydynt yn agored i’w trafod, sy’n gallu helpu i arwain y consortia yn eu gwaith.

Her Ysgolion Cymru

- 34 Lansiwyd y fenter hon ym mis Mehefin 2014 i gefnogi 40 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant (P2S) a'u clystyrau ehangach (Llywodraeth Cymru, 2014b). Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu £20 miliwn i gefnogi'r ysgolion hyn, y nodwyd eu bod yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag gwella.
- 35 Mae ysgolion Llwybrau Llwyddiant wedi cael eu hannog i fyfyrion ar ansawdd eu harweinyddiaeth a'u rheolaeth, eu haddysgu a'u dysgu, ac effeithiolrwydd eu gwaith gyda'r gymuned ehangach. Y gobaith oedd y bydd gwelliant yn neilliannau dysgu disgyblion trwy wneud gwelliannau yn y meysydd hyn. Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o fesurau, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cymorth ac arweiniad allanol i helpu ysgolion Llwybrau Llwyddiant i asesu'r heriau y maent yn eu hwynebu yn fwy cywir, a rhoi strategaethau ar waith i fynd i'r afael â'r heriau hyn.
- 36 Mae ysgolion Llwybrau Llwyddiant wedi cael eu hannog i ddatblygu partneriaethau gydag ysgolion uwchradd eraill lle bo'n briodol. Mae hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion yn flaenoriaeth strategol allweddol yn *Cymwys am Oes* (Llywodraeth Cymru, 2014c).
- 37 Mae ysgolion Llwybrau Llwyddiant wedi mabwysiadu ystod o ddulliau sydd wedi cynnwys nifer o elfennau cyffredin, gan gynnwys wrth ddatblygu prosesau hunanarfarnu, medrau'r uwch dîm arweinyddiaeth, offer TG i gefnogi datblygiad amgylchedd dysgu modern a recriwtio staff addysgu ychwanegol a staff nad ydynt yn addysgu/staff cymorth ychwanegol.
- 38 Mae mwyafrif yr ysgolion Llwybrau Llwyddiant wedi gweithio gydag ysgolion uwchradd eraill. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion nad oedd ganddynt unrhyw bartneriaethau ffurfiol rhwng ysgolion yn amau a oedd neilltuo amser rheoli ar gyfer trefniadau o'r fath yn briodol ac y dylid datblygu perthnasoedd ar sail mwy *ad hoc* yn unol ag anghenion eu hysgol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu bod cydweithio ag ysgolion eraill wedi digwydd. Canfu'r arfarniad o flwyddyn gyntaf y prosiect mai'r prif reswm am hyn oedd agweddau'r uwch arweinwyr. Roedd diwylliant mewnblyg ac ynysol yn bodoli mewn rhai ohonynt.
- 39 Yn yr ysgolion Llwybrau Llwyddiant hynny yr oedd yn ymddangos eu bod yn mynd ati i gydweithio, roedd traean ohonynt yn datblygu perthnasoedd ag ysgolion yr ystyriwyd bod ganddynt arfer ragorol mewn maes yr oedd yr ysgol Llwybrau Llwyddiant eisiau ei wella. Roedd traean arall o ysgolion yn cydweithio ag ysgolion eraill Llwybrau Llwyddiant. Roedd rhai ohonynt wedi gwneud trefniadau ar y cyd ag ysgolion lleol eraill y gwelwyd eu bod yn wynebu heriau tebyg. Fodd bynnag, canfu'r arfarniad ar ddiwedd y fenter fod:

*'amrywioldeb eang yn nodau **gweithio mewn partneriaeth** a'r modd anffurfiol y cafodd llawer o'r gwaith hwn ei wneud yn golygu mai cyfyngedig oedd y dystiolaeth o fanteision y gwaith hwn wrth helpu ysgolion Llwybrau Llwyddiant i gyflawni eu hamcanion gwella ysgol'* (Carr, Brown a Morris, 2017, tud. 7).

- 40 Mae'r ysgolion Llwybrau Llwyddiant hynny a oedd yn cydweithio ag ysgolion eraill yn nodi nifer o ffactorau angenrheidiol er mwyn i'r gwaith fod yn effeithiol:
- **Dealltwriaeth ar y cyd am nodau/amcanion** y bartneriaeth gydweithredol. Pan oedd partneriaethau wedi bod yn effeithiol, roedd ysgolion yn cymryd amser i nodi beth y gallent ei ddisgwyl gan bartneriaid a beth, yn ei dro, y gallai partneriaid ei ddisgwyl ganddyn nhw. Roedd hyn yn ei gwneud yn haws cynnal ymgysylltiad. Roedd yn bwysig fod y cydweithio'n cael ei weld yn fuddiol i'r ddwy ochr.
 - **Roedd angen i'r perthnasoedd fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a hyder.** Roedd datblygu perthynas yn seiliedig ar ymddiriedaeth yn bwysig iawn ble roedd un ysgol yn darparu cymorth, ac un ysgol yn derbyn cymorth. Hefyd, roedd yn bwysig fod y rheiny yr oedd angen cymorth arnynt yn hyderus i fod yn agored i graffu.
 - **Iaith a rennir** ar gyfer gwella. Mae'n bwysig fod yr ysgol sydd angen cymorth yn gallu deall sut gallai dull weithio iddyn nhw ac ar gyfer cynorthwyo ysgolion i gael y medrau angenrheidiol i'w helpu i esbonio sut dylai dull weithio.

Consortia rhanbarthol

- 41 Mae consortia rhanbarthol wedi cydnabod bod angen cael dull gwahaniaethol o ran y cymorth a'r her y maent yn eu cynnig i ysgolion i gyflawni system hunanwella. Ni all ysgolion elwa ar weithio gydag ysgolion eraill nes bod rhag-amodau penodol ar waith a rhwystrau'n cael eu dileu.
- 42 Arolygwyd pob un o'r consortia yn ystod 2016 ac mae'r adroddiadau llawn ar gael ar wefan Estyn. Casgliad cyffredin yw bod gan bob un o'r consortia strategaeth wella glir, ond ei bod yn rhy gynnar barnu effaith gymharol y dulliau penodol. Caiff cymorth cynyddol ar gyfer ysgolion ei ddarparu gan ysgolion eraill, a drefnir gan y consortia. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer meithrin gallu yn y system addysg yng Nghymru. Fodd bynnag, ni chaiff gwaith rhwng ysgolion ei fonitro na'i arfarnu'n ddigon gofalus gan y consortia i sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn cael yr effaith fwriadedig ac nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr ysgolion sy'n darparu cymorth.
- 43 Er bod y dulliau a ddefnyddir gan y consortia yn amrywio, maent yn rhannu nifer o nodweddion cyffredin, sef:
- Defnyddir dull gwahaniaethol neu haenog. Darperir pecynnau ymyrraeth targedig ar gyfer y rheiny y mae angen y cymorth mwyaf arnynt.
 - Mae gan ymgynghorwyr her rôl gynorthwyo ochr yn ochr â'u rôl 'herio'. Mae hyn yn gofyn iddynt weithio gydag ysgolion i'w hannog i gydweithio.
 - Mae dull strategol o newid diwylliannau yn sicrhau bod ymrwymiad cryf i arweinyddiaeth system a dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn system hunanwella.
 - Sefydlwyd strwythurau i annog a chynorthwyo ysgolion i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu system ysgol hunanwella.
 - Mae'r dull 'Her' a oedd yn deillio o fentrau fel Her Llundain (London Challenge), ac sy'n sail i Her Ysgolion Cymru (Carr, Brown a Morris, 2017 a Llywodraeth Cymru 2014b), wedi bod yn ddylanwadol o ran arwain y dulliau yn y consortia.
 - Mae'r model Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol wedi arwain y strategaethau yn y consortia hefyd.

Geirfa

P2S

Llwybrau Llwyddiant – yr enw a roddir i'r ysgolion sy'n derbyn cymorth trwy fenter Her Ysgolion Cymru

'Mynegai her'

Mae'r mynegai wedi ei gyfrifo fel a ganlyn:

- 50% x cyfran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; a
- 30% x cyfran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw mewn ardal sydd wedi'i dosbarthu yn ardal sydd yn yr 20% o'r rhannau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc); a
- 10% x cyfran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n destun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA); a
- 10% x cyfran y disgyblion o oedran ysgol statudol y mae Saesneg (neu'r Gymraeg, lle bo'n berthnasol) naill ai'n newydd iddynt, maent mewn cyfnod caffael cynnar neu'n datblygu eu cymhwysedd

Niferoedd – symiau a chyfrannau

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Cyfeiriadau

Barber, M. a Mourshed, M. (2007) *How the world's best-performing school systems come out on top*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://mckinseysociety.com/downloads/reports/Education/Worlds_School_Systems_Final.pdf [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

Carr, C., Brown, S. a Morris, M. (2017) *Asesu cyfraniad Her Ysgolion Cymru i ganlyniadau a gyflawnwyd gan ysgolion Llwybrau Llwyddiant*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170724-assessing-contribution-schools-challenge-cymru-outcomes-achieved-pathways-success-schools-cy.pdf> [Defnyddiwyd 28 Gorffennaf 2017]

Carr, C. a Morris, M. (2016) *Gwerthusiad Her Ysgolion Cymru: Gweithredu mewn Ysgolion Llwybrau Llwyddiant (2014/15)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160720-evaluation-schools-challenge-cymru-year-1-cy.pdf> [Defnyddiwyd 28 Gorffennaf 2017]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2013) *Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Teithiau%20gwella%20deuddeg%20ysgol%20uwchradd%20-%20Rhagfyr%202013.pdf> [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2015) *Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Cymorth_a_chydweithio_rhwng_ysgolion_-_Mehefin_2015.pdf [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016) *Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Leadership%20and%20primary%20school%20improvement%20cy%20-%20new%20links.pdf> [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

SCYA (2014) *Gwerthusiad hanner ffordd o Tranche 1 y Prosiect Braenaru ar gyfer Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140728-nfer-evaluation-pathfinder-project-cy.pdf> [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

SCYA (2016) *Gwerthusiad o Tranche 2 y Prosiect Braenaru Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a Datblygol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://dysgu.llyw.cymru/docs/learningwales/publications/160310-lead-emerging-practitioner-schools-pathfinder-project-evaluation-tranche-2-cy.pdf> [Defnyddiwyd 27 Mehefin 2017]

OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD perspective*. Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf> [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2011) *Cymunedau dysgu proffesiynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130830-plc-guidance-cy.pdf> [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2014a) *Her Ysgolion Cymru: Cyflwyniad ar gyfer ysgolion Llwybrau Llwyddiant*. Caerdydd: Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140620-schools-challenge-cymru-introduction-brochure-cy.pdf> [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2014b) *Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140217-national-model-for-regional-working-cy-v2.pdf> [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2014c) *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf> [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2015) *Datganiad Ysgrifenedig – Cyhoeddi Ysgolion Arloesi*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/pioneerschools/?skip=1&lang=cy> [Defnyddiwyd 1 Rhagfyr 2016]